*This document is available in English* Eitem Agenda 11

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Mehefin 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Carwyn Rees, Archwilio Cymru** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2026** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau Cynllun Archwilio 2026 sy'n rhoi manylion y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Archwilio Cymru yw archwilydd statudol yr Awdurdod ac mae ei waith yn cwmpasu'r datganiadau ariannol, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n deillio o amcanion llesiant yr Awdurdod.

3 Mae'r cynllun archwilio ar gyfer 2026 wedi'i gynnwys yn atodiad 1 ac mae'n cadarnhau cyfrifoldebau'r archwilydd a'r dull gweithredu arfaethedig.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynllun archwilio yn ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn amcanion llesiant yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae ystyriaeth i drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwerth am arian wedi'i chynnwys yn y cynllun archwilio. |
| Cyfreithiol | Mae archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Ddim yn uniongyrchol berthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn ystyried ystod o fesurau gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. |
| Risgiau | Bydd gwaith Archwilio Cymru yn cael ei gynllunio o amgylch risgiau hysbys. |